Y Dinesydd

Tachwedd 2012 Rhif 372 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

# 45,000 o dai newydd i Gaerdydd?

**Yn ôl y Cynllun Datblygu Lleol, y strategaeth mae Cyngor Caerdydd yn ei ffafrio ar hyn o bryd yw ehangu'r ddinas rhwng nawr a 2026 drwy godi 45,000 o dai newydd. Disgwylir y bydd 18,000 o'r tai hyn yn cael eu codi ar feysydd glas ar gyrion y ddinas. Y bwriad yw gosod y datblygiadau hynny yng nghyffiniau deheuol Creigiau, gorllewin Pentrebane a Phontprennau.**

Dywedodd Richard Price o'r Home Builders Federation nad yw'r cynllun yn ddigon uchelgeisiol i gynnal y cynnydd economaidd a ragwelir yn digwydd yng Nghaerdydd dros y 15 mlynedd nesaf. Ond ni argyhoeddwyd yr Athro Kevin Morgan, o Ysgol Gynllunio a Daearyddiaeth Prifysgol Caerdydd, y gellid, wrth godi cymaint o dai, sicrhau isadeiledd o'r ansawdd angenrheidiol i greu cymunedau cynaladwy. Cred ef y dylid lleoli peth o'r adeiladu newydd allan o Gaerdydd er lles rhanbarth y de-ddwyrain yn gyffredinol.

Mae llefarwyr ar ran Plaid Cymru a'r Blaid Geidwadol wedi mynegi gwrthwynebiad i sawl agwedd o'r cynllun, gyda Phlaid Cymru yn cyhuddo'r Blaid Lafur o anwybyddu eu haddewid cyn yr etholiadau lleol na fyddent yn cymeradwyo codi tai ar feysydd glas.

Mae'n amlwg fod cyfnod o drafod dwys o'n blaen. Nawr yw'r amser i addysgu ein hunain a mynegi barn. Am fanylion am amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd trafod ac arddangosfeydd lleol ffoniwch 029 2087 3461 neu e-bostiwch LDP@cardiff.gov.uk



**Côr Telynau Pwll Coch ym mharti 60 Rhieni Dros Addysg Gymraeg**

*(gweler colofnydd y mis - tud 6)*



**Yr Archesgob Desmond Tutu gyda'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, yn Ysgol Plasmawr**

*(gweler tud 8)*

# TRYCHINEB TRELÁI

Mae'r *Dinesydd* yn estyn cydymdeimlad dwys â theulu Karina Menzies a phawb a ddioddefodd mewn unrhyw fodd fel canlyniad i'r digwyddiadau erchyll yn Nhrelái a Lecwydd ar 19 Hydref. Gellir cyfrannu at un neu ddwy gronfa sydd wedi eu hagor, un er budd plant bach Karina, a'r llall er budd y rhai a anafwyd. Dylid anfon eich cyfraniadau at Y Parch Jan Gould, Coleg Mihangel Sant, Llandaf CF5 2YJ. Ar hyn o bryd, dylid gwneud sieciau yn daladwy i 'Plwyf Glan Ely', a nodi i ba gronfa/gronfeydd y dymunwch gyfrannu.

**Croeso nôl**

o Efrog Newydd i ddisgyblion ac athrawon Ysgol Plasmawr wedi'r antur gyda'r corwynt Sandy.

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
**Gwynn Matthews**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Alun a Mair Treharne**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr erbyn 27 Tachwedd i:
91 Windermere Avenue, Parc y Rhath,
Caerdydd CF23 5PS
Ffôn: 029 20 754 436 / 07800 908898
mairgtreharne@hotmail.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# 'NA' i Arfau Rhyfel

### *Rhan o anerchiad ar risiau'r Senedd, Caerdydd, gan Robin Gwyndaf, Is-Lywydd Cymdeithas y Cymod, 16 Hydref 2012*

Mae pob bywyd yn sanctaidd. Y mae gan bob person yr hawl i fyw. Ond ymhob rhyfel, y nod ydi dwyn bywyd – lladd. Ar daflen Cymdeithas y Cymod yng Nghymru fe sgrifennwyd y geiriau hyn:

> '...wedi miloedd o flynyddoedd o ryfela, mae'r byd [heddiw] yn y cyflwr mwyaf peryglus y bu erioed. Y gred mewn rhyfel sy'n gyfrifol am hyn. Rhyfel yw'r broblem, nid yr ateb.'

Meddai'r diweddar John Penry Jones, crydd o'r Foel, Dyffryn Banw, ym Mhowys:

> Taenu trais ar drais yn drwch
> Yw lladd i ennill heddwch.

Mae Trident; mae pob arf niwclear; mae pob awyren ddibeilot yn Aberporth – adar angau; pob bom; pob gwn – mae'r cyfan yn symbol o ryfel a thrais, dioddefaint a phoen; yn symbol o'r barbareiddiwch sy'n flotyn du yn hanes y ddynoliaeth.

Y mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad oes a wnelo nhw ddim byd â hyn oll, Llywodraeth Prydain sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn. Dyna ni, dyna'r drefn. Ond rydym ni yma heddiw i ddweud wrth bob un aelod o'r Cynulliad **bod** ganddyn nhw gyfrifoldeb. Rydyn ni yma heddiw i ddweud: am bob ymgais i gefnogi Trident, pob arf niwclear, pob awyren ryfel, pob bom, pob gwn: 'na, na, na'.

Ond rydyn ni yma hefyd i ddweud: am bob ymgais i hyrwyddo cyfiawnder a heddwch; pob ymgais i gael gwared ar arfau rhyfel; i atal y Fyddin rhag mynychu ysgolion; i atal y Fyddin rhag hysbysebu ar y teledu; ac i roi hawl i Gymdeithas y Cymod - ac unrhyw gymdeithas arall – i gynnwys hybyseb o blaid heddwch ar y teledu; ac am bob ymgais i sefydlu Academi Heddwch i Gymru, ac i gyflwyno astudiaethau cyfiawnder a heddwch yn ysgolion a cholegau Cymru, am hyn oll, rydyn ni yma i ddweud: 'ie, ie, ie'.

# *NEWYDDION*

### Cyngerdd Amser Cinio yn Rhiwbeina

Mae Capel Beulah yn Rhiwbeina yn trefnu cyfres o gyngherddau amser cinio ac ar 26 Medi gwahoddwyd Robin Huw Bowen i roi datganiadau ar y delyn deires a daeth cynulleidfa deilwng i fwynhau orig yng nghwmni y telynor talentog hwn.

### Gŵr gynt o Gaernafon yn dadorchuddio plac

Ar ei ddiwrnod olaf fel Cofiadur Llys y Goron Caernarfon dadorchuddiodd Winston Roddick Q.C., C.B. blac yn cofnodi fod Llys y Goron newydd Caernafon wedi ei godi yn 2009 ar safle Ysgol Uwchradd Segontium sydd bellach wedi ei hymgorffori yn Ysgol Syr Huw Owen. Bu Winston Roddick yn ddisgybl yn Ysgol Segontium. Fo oedd Cwnsler Cyffredinol Cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd bellach.

### Ethol Swyddogion

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Côr Aelwyd Hamdden yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina, ar 9 Hydref ac etholwyd Val Scott yn gadeirydd y côr, Beryl Thomas yn ysgrifennydd ac Idwal Hughes yn drysorydd. Cynhelir cinio blynyddol y côr yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd ar nos Iau 15 Tachwedd, a'r wraig wâdd fydd Rhiannon Gregory, Rhiwbeina.

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT

# Cymdeithas Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Un o nodweddion arbennig y gymdeithas yw'r amrywiaeth o ddarlithoedd, teithiau, sgyrsiau a chwisiau diddorol a gyflwynir bob pythefnos o fis Medi 2012 i Orffennaf 2013.

Cychwynwyd y flwyddyn yng nghwmni difyr Idwal Lloyd, ein Llywydd amryddawn. Ei destun oedd 'Cyfeillion Pluog' – adar sy'n ymweld â Chymru yn achlysurol a'r rhai sy'n gynefin yn y gerddi, caeau a mynyddoedd. Roedd yn amlwg fod ei ddiddordeb ynddynt yn fawr, a'i wybodaeth am eu harferion ac ati yn eang.

Gwen Emyr, athrawes Hanes a Chymraeg, yn weithwraig ddiwyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y ddinas a'r cylch, oedd y gwestai nesaf. Bu'n sôn am un o ferched Cymru fu'n gwasanaethu fel cenhades yn y Wladfa, sef Eluned Mair Davies. Wrth gyflwyno ei llyfr *Hyd Eithaf y Ddaear* ar fywyd y wraig arbennig hon, cafwyd darlun clir o effeithiolrwydd gwasanaeth amhrisiadwy Mair fel arweinydd ysbrydol a chymdeithasol dros gyfnod hir ym Mhatagonia. Cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg o'i llyfr gan Gwen, *To the End of the Earth*.

Hefyd rhoddwyd braslun o gymdeithas 'Cymorth Hafan' sy'n helpu pobl unig neu anabl yn eu cartrefi, gan sicrhau ymweliadau cyson mewn llawer ardal yn y ddinas.

Pythefnos yn ddiweddarach cafwyd cwis 'Hen Greiriau' dan ofal Philip Havard a'i wraig Christine, sydd â siop Hen Bethau yn y Bontfaen. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddyfalu beth oedd wyth eitem, eu dyddiad a'u hamcan bris. Yr enillydd oedd Elinor Llewelyn. Hefyd rhoddodd yr arbenigwr hanes byr pob un o'r creiriau gan ysgogi llawer o atgofion gan yr aelodau am drysorau tebyg o'r blynyddoedd a fu sydd yn eu cartrefi.

Os hoffech ymaelodi â'r gymdeithas, cysylltwch â'r ysgrifennydd, Marian Lake (029 20593776). Cewch groeso a phaned flasus ar yr aelwyd sy'n cwrdd yn Festri Eglwys Minny Street, Y Waun Ddyfal. Hefyd, beth am ymuno â'r côr dan arweiniad Eilonwy Jones?

## GWAHODDIADAU

**Dathlu 50 Rhydfelen**

Hanner can mlynedd yn ôl sefydlwyd Ysgol Uwchradd Rhydfelen. Nos Wener 23 Tachwedd yn Theatr Reardon Smith, Caerdydd, cynhelir cyngerdd i ddathlu sefydlu'r ysgol. Rhifau cyswllt: Gerwyn Caffrey 01443 407103; Peter Griffiths 029 2089 0314; Phil Elis 029 2049 9641; Russell Isaac 07775 754576.

**Menter Caerdydd**

Cynhelir cyfarfod blynyddol y Fenter yn eu swyddfa yn Llanisien, nos Iau 15 Tachwedd am 7.00pm. Croeso i bawb. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â celia@mentercaerdydd.org neu ffoniwch 029 2068 9888.

**S4C**

Ydych chi'n gwylio rhaglenni gwledig ar S4C? Mae'r sianel yn awyddus i glywed barn ei gwylwyr ar ei rhaglenni gwledig.

Ewch i wefan www.surveymonkey.com/s/gwledigs4c i gwblhau'r arolwg. Diolch yn fawr am gymryd rhan.

**Yr Urdd**

Mae'r Urdd yn chwilio am wirfoddolwyr o Gaerdydd neu'r Fro i eistedd ar eu pwyllgorau Cylch. Bydd y pwyllgorau yn cwrdd drwy gydol y flwyddyn academaidd, fel arfer unwaith y tymor, i drafod gweithgareddau a'r eisteddfod. Fe'ch gwahoddir i gyfarfod sy'n cael ei gynnal yng Ngwersyll yr Urdd, Bae Caerdydd 21 Tachwedd am 6.30pm. Mi fydd lluniaeth ysgafn ar gael. Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Llioangharad@urdd.org neu ffoniwch 07500607407.

**Côr Newydd**

Dewch i ymuno â chôr cymysg newydd sbon i fwynhau canu a chymdeithasu. Ymarfer cyntaf nos Iau, 22 Tachwedd 7.00pm yng Nghanolfan Tabernacl, Efail Isaf. Am ragor o fanylion cysylltwch â Beti Treharne 01443 205937.

## Merched y Wawr Cangen Caerdydd

Yng nghyfarfod y gangen ym mis Hydref treuliasom noson yng nghwmni yr hanesydd o fri, Dr Elin Jones. Ond nid pwnc hanesyddol oedd ganddi y noson honno ond sgwrs am ei hymwneud â'r ymgyrch, 'Amser i Newid Cymru'. Nod yr ymgyrch yw herio'r stigma a'r gwahaniaethu y gall pobl â phroblemau iechyd meddwl eu hwynebu, ymgyrch sy'n cael ei chefnogi gan bartneriaeth o dair prif elusen iechyd meddwl yng Nghymru, Mind Cymru, Hafal a Gofal. Y rheswm dros ei hymrwymiad hir â materion iechyd meddwl ac â'r ymgyrch bresennol hon oedd ei phrofiad personol agos o afiechyd meddwl o fewn ei theulu ei hun.

Eglurodd y gwahanol fathau o afiechyd meddwl gan nodi mai'r afiechydon mwyaf cyffredin oedd iselder a gorbryder. Mae'n debyg bod tua 1 o bob 4 ohonom yn profi problem iechyd meddwl ar ryw adeg yn ein bywydau. Soniodd am y rhagfarn yn erbyn pobl â salwch meddwl a'r gwahaniaethu sy'n peri i bobl gael eu trin yn annheg. I gloi ei chyflwyniad, heriwyd pawb i helpu yn yr ymgyrch i ddileu y ragfarn sy'n bodoli.

Cytunodd pawb i ni gael noson arbennig - un ddiddorol ac addysgiadol - a diolchwyd yn gynnes i Elin am ei pharodrwydd i rannu ei phrofiadau ac am ein hannog ni i gyd i gynyddu ein hymwybyddiaeth a dealltwriaeth o iechyd ac afiechyd meddwl.

### *Cydymdeimlo â*

theulu'r diweddar Peggy Davies, Radur, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 4 Hydref. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth, ac yna yng Nghapel y Graig, Trelech ar 11 Hydref.

## e@chlysur
Mae dros 5,000 o bobl yn derbyn e@chlysur, gwasanaeth e-bost rhad ac am ddim sy'n hyrwyddo digwyddiadau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg i blant ac oedolion yng Nghaerdydd. Beth am gofrestru heddiw i dderbyn gwybodaeth am gigs, gweithgareddau chwaraeon, clybiau plant, dramau a llawer mwy... Ewch i wefan y Fenter i gofrestru – **www.mentercaerdydd.org**

## Gwirfoddolwyr ar gyfer Clwb Cinio newydd i'r Henoed
Mewn ymateb i ymholiadau a cheisiadau personol, mae Menter Caerdydd yn bwriadu peilota Clwb Cinio newydd i henoed y ddinas. Mae diffyg darpariaeth cymdeithasol Cymraeg amlwg yng Nghaerdydd, a gobaith y Fenter yw sefydlu clwb misol fydd yn cyfarfod yn ardal Cyncoed. Tybed a fyddech chi'n gallu rhoi ambell i awr yr wythnos i wirfoddoli yn y Clwb Cinio trwy weini'r bwyd a sgwrsio gyda'r henoed a chefnogi gwaith y Fenter yn y maes hwn? Am fwy o wybodaeth, neu i wirfoddoli, cysylltwch gyda Sian Lewis – 2068 9888 neu ebostiwch sianlewis@mentercaerdydd.org

## Fi a Fy Mabi Bach
Yn dilyn llwyddiant cyrsiau 'Fi a fy Mabi' i fenywod, rydym yn cynnig cwrs arall i'r fam newydd ar ôl i'r babi bach gyrraedd. Bydd y cwrs 4 wythnos, sy'n cael ei gynnal yn Chapter, yn dechrau Dydd Llun, Tachwedd 19 rhwng 1.30pm a 3pm. Bydd cyfleodd i gyfarfod â mamau newydd arall a dysgu am dechnegau tylino babi, cael cyngor gan ymwelydd iechyd, deietegydd a bydwraig am fwydo o'r fron. £20 yw pris y cwrs, ac mae modd cofrestru trwy'r wefan. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â marirhys@mentercaerdydd.org

## Cwis
Cynhelir cwis nesaf y Fenter yn y Mochyn Du, Gerddi Soffia, Nos Sul, Tachwedd 25 am 8 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. £1 yr un i gymryd rhan.

## Côr Plant Caerdydd
Byddwn yn cynnal clyweliadau ar ddiwedd y mis yn ysgolion cynradd y ddinas ar gyfer 'Côr Plant Caerdydd' a fydd yn dechrau yn y flwyddyn newydd. Bydd y côr, dan arweinyddiaeth Mrs Marian Ifans yn cynnig cyfleoedd corawl amrywiol i ddisgyblion ym mlynyddoedd 4, 5 a 6.

## Gweithdy Undydd 'Tapas Cymreig'
Beth am gofrestru ar un o'n gweithdai coginio yn lleoliad hyfryd Gwinllan Llannerch yn y Fro yn ystod mis Tachwedd. Yn ystod y gweithdy byddwch yn paratoi tapas Cymreig dan arweiniad Sian Basset Roberts. Pris y cwrs yw £50 sy'n cynnwys cynhwysion a gwydraid o win. Mae dewis o ddau ddyddiad: Dydd Sul, Tachwedd 11 neu Dydd Sul Tachwedd 24 rhwng 2pm- 4.30pm. I gofrestru, neu am fwy o wybdoaeth, ewch i wefan y Fenter neu cysylltwch ag aweldavies@mentercaerdydd.org

## Clonc yn y Cwtsh
**CHAPTER**



Ydych chi'n dysgu Cymraeg? Dewch i *Clonc yn y Cwtsh* – sesiwn sgwrsio newydd wythnosol i ddysgwyr sy'n cyfarfod yn y Cwtsh yn Chapter (wrth y fynedfa gefn). Cyfle perffaith i ymarfer eich Cymraeg gyda dysgwyr eraill. Croeso i bawb! Bob Nos Lun rhwng 6.30pm – 8pm. Am fanylion, cysylltwch â llinoswilliams@mentercaerdydd.org

## Sblish Sblash Babis Dŵr
Cwrs 6 wythnos newydd o SBLISH SBLASH BABIS DŴR yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed yn dechrau Dydd Iau, Tachwedd 8 rhwng 10.15am a 10.45am. Cyfle gwych i'ch babi gyfarwyddo â sgiliau nofio mewn awyrgylch hapus a hwyliog.Croeso i rieni a babis rhwng 3 mis a 3 oed. £40. Mae modd cofrestru ar ein gwefan neu am fwy o wybodaeth cysylltwch â marirhys@mentercaerdydd.org

## MIRI DOLIG
Dydd Sadwrn, Rhagfyr 8 / 2pm – 4pm
Canolfan Hamdden y Tyllgoed
Sion Corn, Martyn Geraint, Soft Play, Peintio Wynebau
£4 y plentyn/babi (Rhieni am ddim)

# Colofn G.R.

Erbyn i hyn o erthygl ymddangos yn "Y Dinesydd" byddaf innau draw yn y Wladfa yn mwynhau yr haul ac awyr las bob dydd gan ei bod yn Wanwyn yno bellach. Hefyd, byddaf wedi cyrraedd mewn pryd i fynychu Eisteddfod Flynyddol y Wladfa sy'n denu cannoedd o bobl iddi bob blwyddyn gan gynnwys nifer o bobl o Gymru. Dwi'i heb fod draw ers tair blynedd bellach a felly dwi'n siwr o sylwi ar newidiadau yno. Pan es i draw am y tro cyntaf nôl yn 1991 odd dim sôn am beiriannau twll yn y wal ,ond bellach maen nhw'n rhif y gwlith yno! Byddaf yn dychwelyd i Gymru mewn pryd i mi sgrifennu fy nghardiau Nadolig ac ymuno yn y paratoadau i ddathlu'r Nadolig!

Dwi'n dal i gael fy mhlagio gan lu o elusennau sy'n gwthio bagiau plastig drwy fy nrws ar gyfer casglu unrhyw ddillad y gallaf sbario! Dros yr ychydig fisoedd diwethaf daeth 48 o fagiau hyn i'r golwg! Yna os ydych yn cyfrannu siec i elusen cewch eich plagio'n gyson wedyn am ragor o arian gan eu bod yn eich ystyried yn "ffrind am oes"! Byddai sach y postmon lawer ysgafnach pe na bai'r holl elusennau yma yn anfon atoch!

Tybed ydych chi ddarllenwyr "Y Dinesydd" yn wynebu'r fflud o apeliadau ac ati fel minnau? Petai pawb yn ennill miliwn neu ddwy o bunnoedd ar y loteri byddem yn gallu cynorthwyo pob un sy'n ceisio ein sylw ond yn y cyfamser rhaid dethol pa elusennau i'w cefnogi. Ond mae hynny'n dasg bron yn amhosibl gan eu bod i gyd yn haeddu ein cefnogaeth!

Ar ben hyn oll dwi'n cael fy mhlagio gan alwadau ffôn di-ddiwedd gan wahanol gwmnïau ac ati sy'n fy anfon yn benwan. Ond bellach byddaf yn siarad dim ond Cymraeg â phobl pen arall y ffôn a'u drysu'n lân, oherwydd gan amlaf does dim syniad ganddyn nhw pa iaith a siaradaf!

Dyna ddigon o gwyno am y tro neu byddwch yn meddwl fy mod i'n henŵr crintachlyd a sur! Felly af i ganmol rwan y ffaith fod cymaint o gorau Cymraeg yng Nghaerdydd y dyddiau hyn sy'n dwyn clod i'n prifddinas. Yn ddiweddar bues i mewn cyngerdd yng Nghapel Salem Treganna yn gwrando ar dri chôr oedd yn perfformio er budd cronfa Apêl Guatemala. Cafwyd canu gwefreiddiol gan Gôr y Mochyn Du, Côr Merched Canna a Chôrdydd ac aeth pawb adre wedi mwynhau'r noson "mas draw"!

Yr wythnos gynt bues i mewn cyngerdd arall, yn Rhiwbeina y tro hwn, yn ystod yr awr ginio i wrando ar ddatganiadau ar y delyn deires gan y telynor dawnus Robin Huw Bowen. Cafwyd orig o bleser pur yn gwrando arno yn cyflwyno nifer o alawon gwerin ein gwlad mewn dull mor ddiymhongar ond meistrolgar.

Byth ers Deddf Uno Cymru â Lloegr yn 1536 mae'r iaith Gymraeg wedi wynebu canrifoedd o esgeulustra ond er gwaethaf popeth mae'r iaith wedi goroesi a chyn bo hir rwan bydd y Cynulliad yn pasio Deddf Iaith fydd yn cydnabod yr iaith Gymraeg fel un o ieithoedd swyddogol Cymru. Sôn am well 'hwyr na hwyrach'! Mae dyletswydd arnon ni y Cymry Cymraeg yn arbennig i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r iaith gan gofio'r ymadrodd "Cenedl heb iaith, cenedl heb galon". Mae gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Yr Urdd, Merched y Wawr, Cymdeithas yr Iaith, Capeli Cymraeg ac ati wedi cyflawni cymaint i sicrhau parhad yr iaith a rhaid eu canmol am ddal ati dros y blynyddoedd.

# Addysg Gymraeg – cynnydd yn parhau

Fis Medi eleni yr oedd cynnydd o dros 6% yn nifer y plant a gafodd le mewn dosbarth derbyn cyfrwng Cymraeg yn sir Caerdydd. Mae'r cyfanswm sicr yn 689, ac fe allai godi i 695, sef cynnydd o 38 ar gyfanswm 2011.

Er y bydd 3 ffrwd (h.y., 1 ychwanegol) ar gael fis Medi nesaf pan fydd Ysgol Treganna yn agor ar ei safle newydd, mae'n amlwg y bydd angen darpariaeth newydd ar gyrion y ddinas. Cododd swyddogion RhAG hyn gyda'r Cynghorydd Julia Magill (aelod Cabinet y Cyngor Sir sydd â chyfrifoldeb am addysg) yn eu cyfarfod gyda hi ddiwedd mis Hydref. Ni chafwyd argraff fod y sir yn darparu ar gyfer y cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant (735 – 760) sy'n debygol o geisio dechrau addysg Gymraeg yn 2013. Yr unig newyddion da oedd y bydd Pwll Coch yn dal i dderbyn 3 ffrwd wedi i Dreganna newydd agor ac y bydd talgylch sefydlog i Ysgol Glan Ceubal.

Yn ystod yr haf mae'r gwaith wedi dechrau ar godi'r adeiladau newydd ar gyfer Ysgol Treganna. Mae Melin Gruffydd wedi symud o'r hen safle i safle flaenorol Ysgol Gynradd yr Egwys Newydd. Mae ysgol uwchradd newydd Bro Edern wedi agor ym mis Medi, ond nid ar hen safle Ysgol Sant Teilo fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Dros dro mae'r ysgol yn gorfod rhannu safle Glantaf, a hynny gan fwyf mewn cabanau symudol. Dylai symud i'r safle newydd yn 2013.

Ddechrau mis Awst ymadawodd Chris Jones, Prif Swyddog Ysgolion ers dros 8 mlynedd a swyddog addysg ers blynyddoedd cyn hynny, â'r Adran Addysg sirol. Mewn teyrnged iddo disgrifiodd Michael Jones ef fel cyfaill i addysg Gymraeg ac fel un "oedd yn derbyn fod addysg Gymraeg yn debyg o dyfu'n flynyddol gan o leiaf un ffrwd ac nad oedd yn beth a fyddai'n diflannu'n fuan fel niwsans byr-hoedlog."

(Gwybodaeth gan Michael Jones)

# Ôl-Lwybrau

Pan oeddwn yn arddegwr ifanc yn yr 80au cynnar, yn gwiso tei tennau a chardigan burgundy salw ac yn llawn dryswch a diniweidrwydd, route bws rhif 25 oedd fy Nghaerdydd i.

Ers oeddwn yn rhyw 14 oed gallwn ddal y bws o waelod Heol Don ddeiliog i aelwyd yr Urdd yn Conway Rd. Wedi cyrraedd, byddwn yn ffonio adre i dawelu nerfau fy rhieni a dweud fy mod yn saff. Doedd dim rhaid gadael neges, 'mond gadael i'r ffôn ganu dair gwaith ac yna rhoi'r ffôn lawr – dyna oedd yr arwydd fod popeth yn iawn. Ond byddwn hefyd yn cadw 10 ceiniog jyst rhag ofn fod angen sgwrs.

Byddem yn chwarae hoci yn y neuadd fawr lan stâr a stwffio'n cegau â losin ceiniog. Trefnid Ysgol Roc ar ddydd Sadwrn gyda gwersi canu gitâr gan Derec Brown a bum ar daith seiclo o gwmpas Llydaw ddwy waith, diolch i Aelwyd yr Urdd Conway Rd.

Pasiwn fy ysgol, Ysgol Glantaf, yr ysgol uwchradd Gymraeg newydd, lle cofiwn bobl leol yn protestio yn erbyn ei hagor. Gallem eu clywed yn bloeddio, "Welshies go home" drwy ffenest gwers gerddoriaeth Alun Guy. Ninnau i gyd yn synnu wrth weld dynes Pakistani mewn gwisg laes sari a dim synnwyr o eironi yn gweiddi arnom ni, 'Welshies' i fynd adre!

Gallaf arogli'r chwys, persawr Lynx chêp a rwber o sodlau daps o hyd. Weithiau byddem yn cerdded o'r aelwyd am sglods poeth o'r siop jips ar gornel Severn Rd. Wrth sefyll i ddal y bws adref wrth dafarn yr Halfway gwelwn rhai o blant hŷn 16 neu 17 oed yr aelwyd yn ceisio eu lwc i gael peint gyda'r cyfryngis lleol.

Pan oeddwn yn fy arddegau hwyr ar ddiwedd yr 80au, yn geiliog yn fy jeans glas golau, siaced swêd brown a gwallt flat-top, ar y bws oren o'r Eglwys Newydd casglwn fy ffrindiau, Siân Lewis a Rhisiart Williams, yn ystod y daith i Glwb Ifor Bach.

Dyma oedd ein patshyn tir ni. Am fisoedd, os nad blwyddyn neu ddwy, 'roedd hen boster yn gwerthu casét Gwilym Roberts gan ein grŵp, 'Edrych am Julia', i'w weld ar hyd y route. Roedd yno'n colli lliw a plicio rownd yr ymyl, yn styc fel mwsog i focs trydan ar allt Hewl Caerdydd yn Llandaf ac un neu ddau fan arall lle'i gludwyd yn slei fin nos.

Roedd y bws mawr oren yn antur saff. Un noson, a'r bysus wedi mynd i glwydo, daliais dacsi gyda ffrindiau. Gofynnodd, na, gorchmynodd yr yrwraig i ni adael ei thacsi os oeddem am barhau i siarad Cymraeg.

Dydy Aelwyd yr Urdd ddim yno mwyach; fflatiau sydd yno. Ond mae'r 25 yn dal i ddilyn yr un llwybr, ac am wn i, fe fydd hi ymhen canrif hefyd. Â minnau 'nawr yn byw yn Aberystwyth mae camu ar fws mawr oren rhif 25 fel camu nôl i 1985. Mae'r siwrne i'r ddinas yn siwrne o atgofion o lencyndod a Chaerdydd a fu.

**Sion Jobbins**

# COLOFNYDD Y MIS

## Gerald Latter

Dechrau da i'r Hydref, gyda RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) ar y 3ydd o'r mis, yn dathlu penblwydd 60 oed. Chwedeg mlynedd o frwydro cyson a chaled gan y mudiad – ac erbyn hyn llawer i fod yn optimistaidd amdano.

Cynhaliwyd y dathlu yn y Pierhead, Bae Caerdydd, (yng nghysgod ein Senedd).Tipyn o 'high profile', a braf oedd gweld y bedair blaid wleidyddol yno yn tystio i lwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg – ac yn eu plith ein Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, Mr Leighton Andrews.

Yno hefyd yn eu nerth 'roedd disgyblion yr ysgolion Cymraeg: Ysgol Gynradd Gymraeg Pwll Coch gyda'u telynnau; Côr Ysgol Gymraeg Bryn Tawe, Abertawe; eitemau cerddorol offerynnol gan Harry a Charlie Lovell Jones o Ysgol Gymraeg Glantaf a chôr Ysgol Gyfun Cymer, Y Rhondda. Darllenwyd hefyd gerdd gan Eurig Salisbury, Bardd Plant Cymru, a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur.

Yn dilyn, lanswyd gan Heini Gruffudd, atodiad arbennig i'r llyfr gwreiddiol *Gorau Arf – Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939-2000* – sef y llyfryn newydd *Twf Addysg Gymraeg 2002-2012*, a'r cynnwys yn ymwneud â 22 Awdurdod Addysg.

I rai, wrth gwrs, mae twf yr ysgolion Cymraeg yn destun llosg. Gweler rhifyn Chwefror o'r *Dinesydd*. Cawn 'Rhiant Pryderus' yn llawn gofid. "Mae addysg 'Gymraeg' ein prifddinas eisioes ar fin tyfu y tu hwnt i bob rheswm." Diolch felly fod rhifyn Mawrth yn cynnwys ateb gan Bryan James, cyn-bennaeth Rhydfelen, a'r ateb hwnnw yn gryno, effeithiol a chadarnhaol.

Ewch yn ôl nawr at strategaeth Llywodraeth Cymru, *Tuag at Addysg Cyfrwng Cymraeg*. Yn yr ail Adroddiad disgwylid canran o 30% o blant 7 oed yng Nghymru i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2020.

Sut mae gwireddu hyn. Yn ôl Michael Jones (yn rhifyn Eisteddfod y Fro o RHAG) mae'r ystadegau'n dangos yn glir y bydd eisiau 67 ffrwd newydd trwy Gymru gyfan i greu y canran o 30% erbyn 2020. e.e., bydd rhaid wrth 10 ffrwd newydd yng Nghaerdydd, 6 ffrwd yn Abertawe, 8 ffrwd yn Rhondda C.T., ayyb. trwy Gymru gyfan. Canranau gwag fydd rhain oni fydd i'r siroedd fwrw 'mlaen â'r gwaith o fesur y galw.

Mae rhai o'r siroedd eisoes wedi gwneud eu harolwg a chael canlyniadau syfrdannol - 30% - 40%; rhai heb wneud dim ac eraill wedi gwneud ac wedi paratoi'r canlyniadau – ond yn GWRTHOD datgelu'r ystadegau. Oes eisiau dweud rhagor? Hen stori! A derbyn ystadegau Michael, gallwn fod yn weddol bendant mai siroedd Caerdydd, Abertawe, Bro Morgannwg, Caerffili a Chasnewydd fydd ar y blaen yn y cynllunio i ateb y galw h.y. erbyn 2020.

Ond beth am y tymor hir – ac am y tro son am Gaerdydd? Rydym newydd gael y cyhoeddiad fod y ddinas am ddatblygu 45,000 o gartrefi yn y ddinas – ym Mhontprennau, Pentrebaen ac mewn mân mannau eraill. Ble mae addysg cyfrwng Cymraeg yn y datblygiadau hyn? A fydd yn rhaid i RhAG ymladd fel cynt neu a fydd addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei dderbyn fel rhywbeth normal i'w integreiddio i gynlluniau'r ddinas? Nawr yw'r amser i ofyn y cwestiynnau, a chael yr atebion.

# YSGOLION

## Ysgol Bro Edern

**Gwobr Ewropeaidd i Fro Edern**

Mae athrawes yn Ysgol Gyfun Bro Edern, yr ysgol gyfun Gymraeg newydd sbon yma yng Nghaerdydd, newydd gasglu gwobr Ewropeaidd o €1,000. Mae Ceri Anwen James wedi cael ei phenodi fel Pennaeth Ieithoedd Tramor Modern Bro Edern, a newydd fod i Warsaw i gasglu ei gwobr yn y Gynhadledd Flynyddol sy'n dathlu Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd.

Cafodd y wobr ei hariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd ac 'roedd yn chwilio am arfer dda wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i annog dysgu ieithoedd modern. Enillodd Ceri'r wobr o blith dros 80 o gystadleuwyr a oedd yn cynnwys athrawon mewn ysgolion a phrifysgolion ledled Ewrop.

Yr unig sefydliad Prydeinig arall ar y rhestr fer o 10 oedd Prifysgol Durham. Yn ei hysgol flaenorol, sef Bro Morgannwg, roedd Ceri wedi plethu adnoddau pwrpasol ar wefan arbennig, ynghyd ag annog y disgyblion i flogio a phodledu. Cafodd Ceri gyfweliad Skype gyda phanel ym Mhrifysgol Lwcsembwrg fel rhan o'r gystadleuaeth, a chafodd ei gwaith ei ganmol am gynnig adnoddau a phrofiadau blaengar i ddisgyblion a oedd yn dysgu Almaeneg drwy iaith leiafrifol.

Bellach mae Ceri wedi derbyn 5 teclyn iPod Touch i ddefnyddio gyda'i dosbarthiadau, sef disgyblion bl. 7 Bro Edern a disgyblion bl. 6 Ysgolion y Berllan Deg a Bro Eirwg ble mae hi'n cynnal gwersi Almaeneg wythnosol fel rhan o gynllun pontio'r ysgol.

## Ysgol Bro Morgannwg

**Noson Arbennig Iawn**

Yn ystod noson rieni Bl.7 roedd cyfle i brofi rhai o'r arddulliau dysgu sydd yn cael eu cynnig i ddisgyblion Bl.7 yma yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Yn aml mae rhieni yn cysylltu gyda'r ysgol i ofyn am gyngor ymarferol ac adeiladol ar sut i helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol. Fel ymateb i hyn, cynhaliwyd cyfres o weithdai rhyngweithiol er mwyn darparu arweiniad i rieni. Roedd y noson yn llwyddiant mawr unwaith eto gyda rhieni yn dewis rhwng 4 gweithdy gwahanol sef diogelwch ar y wê, hybu plentyn i ddarllen, sut i ddefnyddio dyddiadur y disgybl, asesiadau, adroddiadau a thargedau, a sut i wella sgiliau rhifedd a darllen plentyn.

**Noson Agored**

Cynhaliwyd Noson Agored lwyddiannus ar Ddydd Mercher 17eg o Hydref gyda dros 300 o ymwelwyr yn ymweld â'r ysgol. Croesawyd rhieni, ffrindiau a darpar ddisgyblion a'u rhieni. Roedd cyfle i ymwelwyr fwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys arddangosfa gymnasteg, arbrofion gwyddoniaeth cyffrous, cyflwyniad dramatig a samplu rhai eitemau o'r lluniaeth sydd ar gael yn y siop goffi newydd.



*Gwyddonwyr y Dyfodol*

**Newyddion Eco Ysgol Gyfun Bro Morgannwg**

Ar ddydd Gwener Hydref y 5ed cynhaliwyd gweithgaredd ailgylchu offer trydanol ysgol gyfan. Dan arweinyddiaeth myfyrwyr sy'n astudio Busnes Lefel A, casglodd disgyblion a staff yr ysgol lori yn llawn o offer trydanol. Roedd y weithgaredd yn un cam tuag at y nod o fod yn Ysgol Eco y flwyddyn hon.

Bu'r disgyblion yn brysur yn marchnata'r diwrnod ar ffurf posteri a phamffledi lliwgar, cyflwyniadau yn y gwasanaethau a thrwy siarad gyda disgyblion ac athrawon. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol gan nifer o ddisgyblion, rhieni a staff ac 'rydym yn aros i glywed os y casglwyd digon o offer i ennill gwobr!

## Ysgol Nant Caerau

**Ein hysgol garedig**

Cawsom Noson Gymdeithasol yng Nghlwb Trelái gyda band Mr Oleszko, 'Jukebox', a Nadia Griffiths, mam Shafiq ac Omari, yn canu. Diolch iddynt am berfformio'n ddi-dâl. Codwyd £400 ar gyfer Cronfa'r Llyfrgell.

Bu athrawon a ffrindiau'r ysgol yn brysur yn pobi cacennau a disgyblion bl. 5 yn eu gwerthu, gyda'r elw'n mynd i elusen Macmillan. Codwyd £127.

Ar gyfer Gwasanaeth y Cynhaeaf cawsom roddion gan bob dosbarth. Casglwyd bwydydd sych ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd. Derbyniwyd 150kg o fwyd, 49kg yn fwy na llynedd! Aeth rhai o aelodau Cyngor yr Ysgol i helpu dosbarthu'r bwyd.

Casglwyd pentwr enfawr o dalebau 'Gwnewch Ddymuniad' o'r *South Wales Echo*. Ein dymuniad yw pentwr o lyfrau i'n llyfrgell.

Derbyniwyd rhodd o £200 gan gwmni yswiriant Provident ar gyfer ein llyfrgell. Diolch iddynt hwy a Mrs Driscoll, mam Oakley, am wneud y cyswllt.

**Croeso**

Croeso mawr i holl ddisgyblion newydd y Derbyn a'r Feithrin. Croeso hefyd i'n staff newydd sef, Miss Hannah Stephens (bl.1), Mrs Siwan Leeke (A.A.A.) a Mrs Glenda Sloan (therapydd chwarae). Croeso hefyd i'r tri chynorthwy-ydd newydd sef, Miss Lois Williams (bl.1), Mr Sion Summers (bl.2) a Miss Sophie Paul (Y Feithrin).

**Gwobr Ysgolion Iach**

Enillodd yr ysgol Wobr Cam 1 Rhwydwaith Ysgolion Iach yn ddiweddar. Roedd yr aseswyr yn llawn canmoliaeth o'r disgyblion yn bwyta ffrwythau adeg byrbwyd, systemau yfed dŵr yn y dosbarth i ysgogi canolbwyntio gwell, ein clwb brecwast a'n defnydd o therapydd chwarae. Ymlaen i Gam 2 'nawr!

**Ymweliadau**

Bu bl.3 a 4 ar ymweliad â'r pentref Celtaidd yn Sain Ffagan, a bl.5 ag Amgueddfa Stori Caerdydd er mwyn dysgu am Oes Fictoria.

**Ymwelwyr**

Cafwyd ymweliadau gan Mr Urdd ym mis Medi a daeth Mr Emyr James atom i gynnal Gwasanaeth y Cynhaeaf.

Bu P.C. Warner, Swyddog Cyswllt Ysgolion yr Heddlu, yn siarad gyda'r ysgol gyfan. Daeth eto hefyd i gysuro'r disgyblion ar ôl y digwyddiadau erchyll diweddar. Diolch yn fawr P.C. Warner.

## Ysgol Plasmawr

**Ymweliad Yr Archesgob Desmond Tutu**

Ar ddiwrnod digon llwm yng ngorllewin Caerdydd ar ddiwedd Hydref, braint fu cynnig croeso twymgalon i un o wir gewri'r byd, Yr Archesgob Desmond Tutu. Yng nghanol ymweliad byr, ond llawn, â Chymru, daeth atom i gydnabod y cyswllt arbennig sydd gan Plasmawr gyda gwlad Lesotho, ac yn enwedig waith elusennol y Chweched o dan ofal ac arweiniad Mrs Elin Boyle.

Mae'n wir i ddweud bod gan ambell unigolyn y gallu i gyfathrebu ac ysbrydoli drwy bresenoldeb neu weithred – yr 'X factor'. Pan gamodd yr Archesgob allan o'i gar yn syth at griw o ddisgyblion ifanc i'w



*John Hayes, pennaeth yr ysgol gyda'r Archesgob Desmond Tutu a'r Prifweinidog, Carwyn Jones*

'high fivo', gwelwyd yr 'X factor' ar waith.

Cafwyd anerchiad gan y Pennaeth, John Hayes, ein Prif Weinidog, Carwyn Jones, ac yna'r prif atyniad – pum munud ar yr amserlen a drodd yn ugain, a llond neuadd yn cydnabod y fraint o fod yn bresennol.

Ar ôl clywed y corau a pherfformiad ar y delyn, aeth yr Archesgob ati i lofnodi'r Llyfr Gwyn o dan ofal Mererid Hopood, ac yna un cyfle arall i ddweud 'helo' wrth y plant cyn symud ymlaen.

Gadawodd yr ysgol gyda chrys rygbi yn ei law a channoedd o edmygwyr newydd, a phob un ohonom yn 'gynhesach' o'r profiad. Ymweliad byr fydd yn aros yn hir yn y cof.

## *Llongyfarchiadau i*

• Owain Doyle Llanishen 19 oed ar ennill medalau Aur ac Arian mewn pencampwriaethau seiclo ym Manceinion yn ddiweddar. Mae Owain yn gynddisgybl o Ysgol Glantaf ac erbyn hyn mae'n aelod o'r Academi Seiclo Olympaidd ym Manceinion am dair blynedd. Pob llwydd eto Owain

• John Davies Pantmawr Rhiwbeina, a enwyd yn Arddwr Gorau ymhlith pensiynwyr y ddinas mewn seremoni gyflwyno gwobrau yng nghystadleuaeth flynyddol Caerdydd yn ei Blodau. Cynhaliwyd y seremoni yn Neuadd y Ddinas nos Lun 1 Hydref. Llongyfarchiadau hefyd i Ysgol Gymraeg Pwll Coch Lecwydd ar ennill dwy wobr yn y gystadleuaeth.

• Siân Stephens, gynt o Gaerdydd, ar ei phenodi yn Rheolwr Nawdd yr Urdd. Cyn ei phenodi i'r swydd bu'n gweithio fel Cydlynydd Cyllid a Chodi Arian i fudiad 'Peace Brigades International' yng Ngholumbia, De America. Mae'n gynddisgybl o Ysgol Glantaf. Pob llwydd iddi yn ei swydd newydd.

• Dr Manon Williams. cyn-ysgrifennydd preifat y Tywysog Siarl a phennaeth materion cyhoeddus BBC Wales, ar ei phenodiad diweddaraf. Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio strategaeth dwristiaeth newydd ym mis Mawrth 2013 ac fe'i penodwyd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Cronfa Dreftadaeth Loteri Cymru. Mae hi'n enedigol o Riwbeina ac yn gyn-ddisgybl oYsgol Glan Taf.

# EGWYL I'R RYSAIT

**Mae Rysait y Mis gan Nerys Howell wedi bod yn golofn boblogaidd yn *Y Dinesydd* am ddwy flynedd, bellach, a ninnau'r darllenwyr wedi cael cyfle i brofi nifer o ddanteithion newydd a chyffrous. Oherwydd prysurdeb gwaith bydd y golofn yn dod i ben – am nawr, ta beth – ond wrth ddiolch yn fawr i Nerys am ei chyfraniad, gadewch i ni ddod i nabod y person y tu l i'r resait.**

**Nerys, fe wyddon ni eich bod yn rhedeg cwmni o'r enw Ymgynghoriaeth Bwyd Howel, sy wedi ei leoli yn Nhreganna, ond cyn i ni sn am hynny dwedwch ychydig bach am eich cefndir cynnar.**



*Nerys wrth ei bodd yn arbrofi yn y gegin*

**Pwy neu beth ddylanwadodd arnoch chi i ddilyn gyrfa yn y maes arbennig yma, a beth oedd y camau ar l gadael yr ysgol?**

Dechreuodd fy niddordeb yn y maes hwn pan oeddwn yn ifanc wrth dreulio wythnosau gwyliau'r ysgol ar ffermydd fy Mamgu a Dadcu yn Llangeler a Chapel Iwan, Sir Gaerfyrddin, lle roedd paratoi bwyd a phrydau o gynnyrch ffres wedi'i dyfu a'i gynhyrchu ar y fferm yn rhan naturiol o fywyd dyddiol. Bu dylanwadau coginio fy mam a'm dwy fam-gu yn allweddol wrth imi benderfynu ar fy ngyrfa. Cefais fy addysg yn ysgol gynradd Ynyswen, Treorci, ac yna yn Rhydfelen, ac ar ôl astudio cwrs rheoli arlwyo a lletygarwch am dair blynedd yng Nghaerdydd es i weithio yn y maes hwnnw gyda'r Awdurdod Iechyd yng Nghaerdydd, Surrey a Bryste. Ar ôl dysgu sgiliau Coginio ar gyfer niferoedd mawr, penderfynais fynd ati i feistroli'r grefft yn Ysgol Fwyd a Diod Prue Leith yn Llundain cyn mynd dramor am flwyddyn i ymarfer fy sgiliau newydd. Wedi dychwelyd i Lundain, bûm yn gweithio mewn tŷ bwyta yn y ddinas, coginio ciniawau i gyfarwyddwyr cwmni yn Park Lane, a rheoli tai bwyta gan gynnwys y tŷ bwyta llysieuol cyntaf yn Oxford Street, gan ymuno fel rheolwr rhanbarthol yn ddiweddarach gyda Compass – un o'r cwmnau arlwyo mwyaf. Dychwelais i Gymru ym 1996 a dechreuais gyflwyno eitemau bwyd a diod yn rheolaidd ar S4C, BBC Cymru a HTV. Recordiwyd tair cyfres o *Pryd o Dafod* gyda Dudley a bûm yn feirniad ar *Chez Dudley* a *Casa Dudley* gyda Bryn Williams. Gwnes waith ymchwil ar ryseitiau y 1920au a'r Ail Ryfel Byd ar gyfer rhaglen BBC *The Coalhouse*.

**Pryd a sut y sefydlwyd Ymgynghoriaeth Bwyd Howel, a pam dod i Gaerdydd?**

Yn ogystal â chyflwyno eitemau bwyd a choginio yn y cyfryngau, cefais gyfleoedd i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru a phenderfynais sefydlu'r cwmni wedi gweld cyfle i ehangu a chyfrannu'n sylweddol at y gwaith o farchnata a hyrwyddo cynnyrch o Gymru. Wedi byw allan o Gymru am gyfnod sylweddolais wrth ddychwelyd nad oeddem fel cenedl yn hyrwyddo nac yn marchnata'r sector yma yn ddigonol a'i bod yn bwysig i ni ddangos i'r byd safon ac ansawdd ein bwydydd a'n lletygarwch yma yng Nghymru.

Sefydlwyd Ymgynghoriaeth Bwyd Howel fis Mai 2005 ac 'rydym yn falch o fod wedi cael cyfleoedd i gyfrannu at y sector fwyd yng Nghymru mewn cyfnod cyffrous lle mae cymaint wedi newid yn ystod y ddegawd diwethaf.

**Bydd llawer o'n darllenwyr wedi mwynhau eu hymweliad 'ch stondin yn *Tafwyl* yn gynharach eleni a falle wedi eich gweld yn stondinau *Gwir Flas Cymru* yn Sioe Llanelwedd ac Eisteddfod y Fro, ond mae mwy i'ch gwaith na chynnal sesiynnau fel hyn.**

Oes, yn wir. Fel y soniais eisoes, rydw i'n gwneud tipyn o waith teledu ac yn gyfrannwr cyson ar *Prynhawn Da* ac ar Radio Cymru. Fel cwmni rydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau yn ymwneud â bwyd fel creu a phrofi ryseitiau i gwmnoedd a datblygu bwydlenni Cymreig ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau. Er engraifft – eleni bûm yn gweithio gyda Bafta yn Llundain yn ystod Dydd Gŵyl Dewi a gorfod dysgu'r prif gogydd sut i wneud pice! Fel y gwyddoch, rydym yn rheoli prosiectau a digwyddiadau Gwir Flas yng Nghymru a thu hwnt ac eleni bydda i'n mynd i Shanghai i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Gallwn helpu cynhyrchwyr ddatblygu syniadau newydd ar gyfer marchnata bwyd – o gwmnoedd bach lleol i'r archfarchnadoedd mawr. Yn fyr, rydym yn cynnig unrhyw wasanaeth yn ymwneud â hyrwyddo bwyd a diod o safon.

Rydw i hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol o Fwrdd Mentrau Cyf, Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac yn awdur llyfr, *Cymru ar Blt* .

*(Parhad drosodd)*

**Pa elfen o'r gwaith sy'n rhoi mwya o foddhad i chi?**

Yr holl amrywiaeth o brosiectau a gweithgareddau sydd i gyd â'r ffocws ar fwyd. Gallaf fod yn y gegin yn arbrofi rysit un dydd, rheoli stondyn mewn ffair fwyd bryd arall neu wrth fy nesg yn ysgrifennu bwydlenni. Y cyfle i ddefnyddio cynnyrch gorau'r wlad ac i'w farchnata dros y byd a chael teithio a chwrdd â phobl arall sy'n caru bwyd da.

**O edrych ar eich gwefan mae'n amlwg bod eich gwaith yn mynd chi i lawer o wledydd pell ac agos. Dwedwch ychydig bach am un o'r llefydd mwya cyffrous i chi ymweld ag ef.**

Roeddwn yn Awstralia adeg Cwpan Rygbi'r Byd yn 2003 yn gweithio yn y Museum of Modern Art yn Sidney yn darparu bwydlen Gymreig am wythnos. Dyma'r tro cyntaf i mi ymweld â'r wlad a chefais fy syfrdanu gan safon ac amrywiaeth y bwyd a'r gwasanaeth yn y bwytai yno.

**I orffen, rhaid gofyn beth yw eich hoff resit chi gartre, a pha bryd o fwyd fyddech chi'n ei ddewis yn eich hoff fwyty?**

Rydw i wrth fy modd yn pobi cacennau gan fod gen i ddant melys ac yn arbrofi gyda gwahanol flasau a chyfuniadau! Mae'r teulu wedi hen arfer ar fod yn foch cwta! Does gen i ddim un hoff fwyty yn benodol gan 'mod i'n hoffi mynd i wahanol lefydd, yn enwedig os oes bwyty newydd agor, ac fel arfer bydda i'n dewis pysgod neu fwyd môr oddiar y fwydlen. Un o'r prydau mwyaf cofiadwy oedd mewn tŷ bwyta 3 seren Michelin, Paul Bocuse yn Lyon, Ffrainc, lle cefais fy ngwefreiddio gan sgiliau'r cogyddion wrth baratoi bwydlen blasu 8 cwrs!

**Diolch yn fawr am rannu rhai o'ch profiadau gyda ni, a diolch eto am eich cyfraniadau diddorol i'r Dinesydd.**

# ANRHYDEDDU GWYNEDD PIERCE

Yn ail gynhadledd flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, a gynhaliwyd yn adeilad Archifau Morgannwg yn Lecwydd, Caerdydd ar 6 Hydref, fe wnaed yr Athro Emeritws Gwynedd Pierce yn Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas.

Wrth ei gyflwyno, dywedodd Hywel Wyn Owen, Trefnydd y Gynhadledd: 'Mae Gwynedd yn gyswllt gyda tho o ysgolheigion enwog cenhedlaeth gynharach, megis yr Athro Gruffydd John Williams a William Rees. Ym Mangor, roedd yn ddisgybl i neb llai na Syr Ifor Williams ei hun.'



*Gwynedd Pierce, Llywydd Anrhydeddus cyntaf y Gymdeithas, yn annerch y gynulleidfa*

'Bu cyfraniad Gwynedd i astudiaethau enwau lleoedd yng Nghymru a thu hwnt yn un allweddol a dylanwadol ers blynyddoedd maith,' meddai, a nododd bwysigrwydd y gyfrol *The Place-Names of Dinas Powys* (1968) fel un arloesol gan iddi osod patrwm safonol o astudio enwau lleoedd. 'Heddiw,' meddai, 'ein braint ni yw cymeradwyo Gwynedd Pierce fel ein Llywydd Anrhydeddus cyntaf ni yng Nghymdeithas Enwau Lloedd Cymru mewn cydnabyddiaeth o'r parch sydd iddo ym Mhrydain a thu hwnt ond yn bennaf ei gyfraniad oes i astudiaethau enwau lleoedd Cymru.'

Soniwyd hefyd am y gyfrol *Place-Names in Glamorgan* a gyhoeddwyd ddeng mlynedd yn ôl, cyfrol wedi'i hanelu at y darllenydd cyffredin a'r academydd fel ei gilydd, ar sail ysgolheictod cadarn, awdurdodol. Roedd yn gasgliad o erthyglau a ymddangosodd yn y *Western Mail* yn wythnosol dros y blynyddoedd.

Bu Gwynedd Pierce yn Athro Hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd am flynyddoedd. Bu'n cynghori'r Cynulliad ar ffurfiau safonol enwau lleoedd. Fe'i anrhydeddwyd gan Gymdeithas Hanes Morgannwg yn ddiweddar. Bu'n Llywydd y Society for Name Studies in Britain and Ireland.

Wrth gloi'r gynhadledd cyfeiriodd Rhian Parry at ddatblygiadau cyffrous sydd ar y gweill. Delfryd y Gymdeithas yw cydweitho gyda chymdeithasau a sefydliadau eraill drwy'r wlad i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd casglu a chofnodi enwau lleoedd. Gwnaed cais am grant Loteri fis Mai eleni i gynnal nifer o weithgareddau yn cynnwys cynadleddau rhanbarthol, sgyrsiau, gweithdai a theithiau tywys. Rhan heriol o'r cynllun fyddai gosod yr enwau a gesglir ar fapiau digidol a chronfa ddata'r Gymdeithas. Ni fu'r cais cyntaf yn llwyddiannus ond bwriedir ei ailgyflwyno ym mis Tachwedd.

Anogir unrhywun â diddordeb yn y maes yma i gysylltu â'r Gymdeithas.

Ceir y manylion cyswllt ar y wefan: cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

# Newyddion o'r Eglwysi

## Capel Ebeneser

**Cerdded a beicio**

Bu criw o'r plant a'r ieuenctid yn cerdded a beicio ar ddydd Sadwrn 15 Medi ar hyd llwybr y Taf o Barc Hailey, Ystum Taf i Gastell Coch. Daeth taith y cerddwyr i ben wrth gored Radur ond aeth y beicwyr ymlaen i Gastell Coch. Ni ddatgelwyd pwy lwyddodd neu pwy fethodd i gyrraedd y castell heb orfod gwthio'r beic! Codwyd oddeutu £200 tuag at ein helusen am y flwyddyn - Hosbis George Thomas.

**Doniau**

Ar nos Fawrth 9 Hydref daeth cynulleidfa dda ynghyd i wrando a mwynhau rhai o dalentau ifanc yr eglwys. O'r ieuengaf i'r hynaf roedd graen ar y perfformiadau. Cawsom wrando ar y corn Ffrengig, y fiola, y ffidil, y ffliwt a'r piano. Braf hefyd oedd cael gwrando ar ymgom a berfformiwyd gan bedwar o ddisgyblion Glantaf. Roedd hi'n gychwyn gwych i dymor llawn amrywiaeth o weithgareddau. Bydd y noson nesaf ar 13 Tachwedd yng nghwmni Aled Gwyn.

**Cydymdeimlad**

Trist iawn, yn ddiweddar, oedd colli tri aelod a fu'n ffyddlon iawn i'r achos yn Ebeneser. Bu farw Irfon Evans ddechrau Medi a Terwyn Davies a Tony Ford o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd ddechrau mis Hydref. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r tri teulu yn eu colled. Collodd Elin Elis Jones ei thad yn ddiweddar hefyd. Cofion annwyl iawn at y teulu cyfan.

**Llongyfarchiadau**

...i Mair Evans, Maesglas a ddathlodd ben-blwydd arbennig ddydd Llun 1 Hydref. Hefyd i Eira Jones ddathlodd ben-blwydd yr un mor arbennig ar 16 Hydref.

...i Sian Semmens ar ei phriodas gydag Andrew Thomas yng nghapel Soar, Llandyfan ar 8 Medi. Pob dymuniad a bendith i'r ddau ohonynt.

...i Llinos ac Andrew Brown ar enedigaeth Megan Sara ac wrth gwrs llongyfarchion i Eynon a Delyth Williams ar ddod yn daid a mam-gu am y tro cyntaf.

## Bethel, Rhiwbeina

Bu farw Mrs Nan Munro, Thornhill, yn 91 oed. Byddai'n dod i Fethel yn gyson cyn ei gwaeledd. Cydymdeimlir yn fawr â'i theulu.

Llongyfarchiadau i Gwyndaf a Hafwen Roberts sydd wedi dathlu eu Priodas Aur.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Shirley Williams ar gael ei dewis yn Swyddog Datblygu Merched y Wawr yn ne-ddwyrain Cymru.

## Salem, Treganna

**Bedyddiadau**

Bedyddiwyd Lefi a Casi, plant Robyn a Sarah Hughes, ac Ela, merch Mali ac Arwyn Thomas yn ystod y mis. Dymuniadau gorau i Lefi, Casi ac Ela a'u teuluoedd.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**

Cawsom wasanaeth diolchgarwch hynod fywiog ar 21 Hydref dan arweiniad yr Ysgol Sul. Cawsom wledd o ganu, gan gynnwys perfformiadau unigol a darlleniadau gan aelodau hŷn yr Ysgol Sul. Gwnaed casgliad tuag at Apêl Guatemala.

**Cyngerdd Corau**

Cawsom gyngerdd 3 chôr hollol wefreiddiol gan Gôr y Mochyn Du, Côr Canna a Chôr Dydd (3 o'r 4 côr sy'n ymarfer yn Salem). Codwyd swm hynod deilwng at Apêl Guatemala.

**Clwb Criced**

Cafodd Clwb Criced Salem ginio blynyddol ddiwedd Medi. Braf oedd gweld nifer o'r sgwad yn mwynhau ac yn ail-fyw nifer o uchafbwyntiau'r tymor er gwaethaf y tywydd – tymor llwyddiannus iawn.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Mari Williams wedi iddi golli ei mam yn ddiweddar.

**Gŵyl Teulu Duw**

Cynhaliwyd Gŵyl Teulu Duw gan yr Henaduriaeth ym Mhlasmawr gydag eglwysi eraill Morgannwg – cawsom amser bendithiol iawn.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Cyfarfu Clwb y Bobl Ifanc ac 'rydym yn edrych ymlaen at ein penwythnos i ffwrdd ddiwedd Tachwedd.

**Adran Salem**

Cafwyd noson hwyliog o Bingo nos Iau 25 Hydref - pawb wedi joio a braf gweld llond y lle. Edrychwn ymlaen at noson yng ngofal Geraint a'r Urdd ar ôl hanner tymor.

## Tabernacl

**Ysgrifenyddiaeth yr Eglwys**

Cyflwynodd Eirlys Pritchard Jones ei hymddiswyddiad fel un o gyd-ysgrifenyddion yr eglwys, gan esbonio ei rhesymau mewn llythyr i'r aelodau ddiwedd mis Medi. Gallwn ond diolch iddi am ei llafur egniol a diflino wrth wynebu sawl sefyllfa ddyrys, dros y blynyddoedd diweddar. Bydd yn parhau fel diacon yn ein plith, a gobeithiwn y byddwn yn dod o hyd i berson arall a fydd yn medru rhannu'r gwaith gyda Marc Jon Williams.

**CD o waith Verina Matthews**

Yn ystod yr haf cyhoeddwyd CD o gerddoriaeth Verina Matthews. Os ydych heb gael cyfle i wrando ar y gwaith, a gafodd ei gynhyrchu yn Ffrwd Amos Penygraig, yna gellir cael copïau drwy law Hugh Matthews neu Marc Jon Williams.

**Bore Coffi**

Diolch i Helen a Rhys Jones am eu croeso i'r rhai a ddaeth ynghyd yn ystod mis Medi. Daeth cyfle wedyn i gwmnïa yng nghartref Gill a John Thomas ar Hydref 10fed a diolch iddyn nhw hefyd.

**Datganiad Organ**

Organydd gwadd mis Medi oedd David Soar, sy'n byw yn lleol ym Mhenarth. Mae'n fwy adnabyddus fel unawdydd opera, ond cyn troi at ganu, roedd yn organydd proffesiynol. Cafwyd datganiad amrywiol a hynod safonol ganddo. Ni fydd datganiad ym mis Hydref, ond byddwn yn edrych ymlaen at glywed Michael Charnell-

White o Gaerffili yn rhoi datganiad ar Dachwedd 10fed.

**Cynllun Drysau Agored**

Bu'n brofiad difyr i gael tri Sadwrn o'r bron ym mis Medi o gadw'r drysau ar agor a chyflwyno hanes y capel. Roedd yn rhan o gynllun ehangach ar draws nifer o gapeli ac eglwysi yn ystod mis Medi. Bu'r Tabernacl yn gwneud hyn ers tro, ar un bore Sadwrn y mis rhwng 11.00am a chanol dydd. Byddai Rici Carter a Helen Jones, sy'n trefnu'r rota, yn falch o weld yr arferiad yn parhau.

## Eglwys Dewi Sant

**Diolchgarwch**

Buom yn dathlu Gŵyl Diolchgarwch ddechrau mis Hydref. Y pregethwr gwâdd yn y gwasanaeth boreol oedd y Parchedig Ganon Aled Williams a fu'n rheithor Bro Teifi Sarn Helen cyn ymddeol. Cawsom bregeth rymus a phwrpasol ganddo. Bu plant yr Ysgol Sul yn disgrifio sut y dethlir Gŵyl y Cynhaeaf mewn gwahanol wledydd cyn cyflwyno eu rhoddion.

Ar ôl y gwasanaeth aeth pawb i'r neuadd i fwynhau cinio gyda'i gilydd. Addurnwyd yr eglwys yn gelfydd gan aelodau Cylch Dewi.

**Cymdeithas Nos Iau**

Fe'n croesawyd yn gynnes i Hafodlon, cartref y Ficer, ar gyfer cyfarfod cyntaf y Gymdeithas, lle cawsom gyfle i sgwrsio a thrafod.

Gwynn Matthews oedd y siaradwr yng nghyfarfod mis Hydref. Testun ei sgwrs oedd Catrin o Ferain, yr uchelwraig hynod o Ddyffryn Clwyd a chawsom ddisgrifiad manwl a lliwgar o'i bywyd diddorol.

**Datganiad Organ**

Cynhaliwyd yr olaf o'r datganiadau i ddathlu 125 mlwyddiant Organ Father Willis gan Huw Williams, organydd y Capel Brenhinol ym Mhalas Sant Iago yn Llundain. Cafwyd datganiad arbennig ganddo a oedd yn arddangos seiniau cyfoethog yr organ.

**Llongyfarchiadau**

Pob dymuniad da i Haf Davies, Pontcanna, sydd newydd gychwyn yng Ngholeg y Santes Anne, Rhydychen, lle mae hi'n astudio Saesneg.

**Ffair Grefftau**

Cynhelir Ffair Grefftau yn Neuadd yr Eglwys, ddydd Gwener, Tachwedd y 9fed rhwng 3.00pm a 7.00pm, a bore Sadwrn rhwng 10.00am a 2.00pm, pan fydd amryw o stondinau yn gwerthu cardiau, gemwaith, lluniau a.y.y.b. Dewch yn llu!

# Magu Plentyn yn Ddwyieithog

Mae mwy a mwy o'r teuluoedd lle siaredir Cymraeg yng Nghymru heddiw yn deuluoedd dwyieithog, Cymraeg a Saesneg. Felly gan amlaf Saesneg yw'r iaith a siaredir gartref rhwng yr oedolion. Mae hyn yn medru bod yn her fawr i deuluoedd sydd am fagu eu plant yn ddwyieithog. Weithiau gall y rhiant Cymraeg deimlo'n euog am siarad iaith yn y cartref nad yw'r cymar yn ei deall, neu gallant deimlo'n ynysig, oherwydd bod y byd o'u cwmpas yn siarad Saesneg ac mai nhw yw'r unig berson ym myd eu plentyn sydd yn siarad Cymraeg.

Rhaid cyfaddef mai dyma oedd fy nheimlad i gyda fy merch hynaf, yn enwedig gan fod fy nheulu yn byw yn bell i ffwrdd. Ei thuedd oedd i'm hateb yn Saesneg er i mi fynnu drosodd a throsodd iddi 'siarad Cymraeg â Mami, cariad!'.Yn anffodus mae'n gallu bod yn waith caled i fagu ein plant i fod yn Gymry Cymraeg mewn amgylchedd Saesneg, ond mae'n holl bwysig ein bod yn wynebu'r sialens oherwydd does dim gwell anrheg y gallwn roi i'n plant.

Mae dwyieithrwydd mewn plentyn yn fantais, ac nid ydyw'n arwain at anawsterau cyfathrebu. Does dim tystiolaeth ei fod yn achosi i blant dechrau siarad yn hwyrach. (The Royal College of Speech and Language Therapists, 2006).

Y peth pwysicaf yw gwneud yn siŵr eich bod yn siarad Cymraeg gyda'ch plentyn yn gyson. Peidiwch poeni na fydd eich cymar yn deall – byddwch chi'ch dau yn synnu gymaint o Gymraeg y bydd y rhiant Saesneg yn dod i ddeall, a hyd yn oed i siarad gyda'r plentyn ei hun! Os yw eich plentyn yn cymysgu ieithoedd mewn brawddeg, nid ydyw wedi drysu. Mae'n gwneud y gorau o'r eirfa sydd ganddo er mwyn cyfathrebu.


Mae llawer o gyfleoedd ar gael yn Ne Cymru, megis grwpiau Ti a Fi (www.mym.co.uk); gwersi canu trwy gyfrwng y Gymraeg i fabanod a phlant bach gyda Hei-di-Ho yng Nghaerdydd a'r Fro (www.hei-di-ho.co.uk); dosbarthiadau cyfathrebu Torri Geiriau sydd yn magu hyder siarad mewn plant 12 mis hyd at oedran ysgol (www.talkingtots.info/tafelaiaphenybont/); a gwersi arwyddo babanod TinyTalk trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n cynnwys canu ac amser cymdeithasol yn ogystal â dysgu sut i arwyddo babanod gan ddefnyddio Iaith Arwydd Prydain, yn Mhendeulwyn ger Caerdydd (www.tinytalk.co.uk/elunedw).

Nawr bod fy merch hynaf wedi dechrau mynd i'r ysgol mae ei Chymraeg yn gwella'n ddyddiol. O'r diwedd, mae'r iaith wedi dod yn fyw iddi. Nid iaith fach gyfrinachol Mami yw hi rhagor, ond yr iaith ma hi'n glywed o'i hamgylch bob dydd. Fel y bydd ei chwaer fach yn dysgu siarad dros y flwyddyn nesaf, bydd y Gymraeg yn datblygu i fod yn brif iaith yr aelwyd. Druan bach o'r gŵr! Ond gyda'r dair ohonom yn siarad Cymraeg bydd dim dewis ganddo yntau ond dysgu hefyd!

**Eluned Winney**

Mae Eluned yn byw ym Mhont-y-clun ac yn fam i ddwy ferch fach, 1 a 3 blwydd oed, ac yn cynnal gwersi arwyddo babanod ym Mhen-y-bont, Pencoed a'r Bontfaen, gan gynnwys gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg (uniaith) ym Mhendeulwyn.

## DINESAIR Rhif 127



### Ar Draws

1. 'Wele'r dydd yn gwawrio draw --------- ------- sydd gerllaw' (TJ) (5,6)
8. Croten wedi torri'i sodle (5)
9. Bydd gwylltineb Bryn i ti yn helbul (7)
11. Yn ddagreuol fel helygen (7)
13. Lle i newid cyfeiriad torf afreolus cyn Awst 1af (5)
14. Dyheu am ysmygu llai (3)
15. Rhoi dechrau newydd i faled i'w gwneud yn fwy anodd (5)
16. Cnawd anifail o'r Gogledd (3)
17. Yn anunion af yn ôl i'r sticil (5)
19. A all aderyn fod yn dy bresenoldeb?
20. Proffwydo coeden o flawd (7)
22. Cywasgu'r gwastatir i gael glaswellt (5)
23. '-------- ------- fis fy serch
    Mis y porffor ar y ffriddoedd' (EW) (7,4)

### I Lawr

2. Pethau i roi pen arnynt (7)
3. Aderyn o oes arall (3)
4. Paid siarad drwy hon (3)
5. Anafu wrth fod mewn brys i godi (5)
6. 'Mae'n tynnu yma ----- ----- ----- ----- draw' (DC) (1,4,2,4)
7. 'Golud y cyfoethog yw ei ----- -----, ac y mae fel mur cryf yn ei dyb ei hun' (Diarhebion) (5,6)
10. Etifeddiaeth yn Sweden (5)
12. Awydd cael offer eiddgar (5)
15. 'Draw ar gefnfor tragwyddoldeb ----- yr Oesoedd fydd fy nghân' (SJG) (5)
16. A all clai fod yn llond dy freichiau (7)
18. 'Ein Tad cofia'r ----- rhwng cyfnos a gwawr' (EW) (5)
21. Nid yw hon am fynd (3)
22. Chwarae 'rhoi tô ar garreg' (3)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Rhagfyr.

---

**Enillydd Croesair Rhif 125 -**

### Gwion Dafydd, Ystum Taf

**Atebion Rhif 125**

**Ar Draws** – 2. Llac; 5. Dilety; 7. Alawon; 9. Gwahaniaethu; 10. Trallod; 11. Diamod; 13. Mynwes; 16. Codymu; 18. Anfarwolion; 19. Coelio; 20. Ymorol; 21. Gwn.

**I Lawr** – 1. Lliwgar; 2. Llygaid; 3. Cariad; 4. Moduro; 6. Eraill, Pwy fel; 8. A oes a'ch deil o; 10. Tîm; 12. Dau; 14. Ymaros; 15. Serchog; 16. Clogyn; 17. Mantol.

---

## Catrin Finch – Cyfansoddwraig

Mae albwm newydd Catrin Finch, *Blessing*, (Deutsche Grammophon) yn dwyn ynghyd dalentau Catrin a'r cyfansoddwr John Rutter. Clywir hefyd y recordiad cyntaf o waith a gyfansoddodd Catrin ei hun, gan gynnwys ei 'Celtic Concerto'. Caiff *Blessing*, sydd yn cynnwys 'May the Lord Bless You and Keep You' a'r 'Gaelic Blessing' gan John Rutter – ynghyd â pherfformiadau gan y soprano Elin Manahan Thomas, a berfformiodd yn ystod seremoni agoriadol y Paralympics – ei ryddhau 12 Tachwedd. Bydd taith fyw yn dilyn, gyda chyngerdd yn Acapela, Pentyrch, ar 17 Tachwedd. Mae tocynnau ar gael o'r swyddfa docynnau, 08448 700 887 neu www.acapela.co.uk

## Deddf Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg 1563

Fel rhan o ddathliadau 450 mlwyddiant y ddeddf mae Eglwys Dewi Sant yn trefnu pererindod yn 2013 i Ddinbych at fedd a chofeb seneddwr oedd a rhan yn sicrhau'r ddeddf, Humphrey Lhyud, Aelod Seneddol Dinbych. Mewn cywydd mawl iddo dywedodd Gruffudd Hiraethog,

> Perl mewn Tŷ Parlment yw hwn;
> Peibl, wyneb pob haelioni,
> A wnaeth yn act o'n hiaith ni.

Dyddiadau'r bererindod yw 19-21 Mehefin. Bydd y fintai yn aros yn Llyfrgell Gladstone, Penarlâg, ac fel rhan o'r daith mae bwriad i weld rhai o drysorau gwydr lliw Dyffryn Clwyd. Mae'r bererindod yn agored i bawb, ond mae cyfyngiad ar y niferoedd y gellir eu lletya. Am fwy o fanylion cysyllter ar fyrder â'r trefnydd, Gwynn Matthews (ffôn: 029 20562880)

# Calendr y Dinesydd • Tachwedd-Rhagfyr

**Llun, 5 Tachwedd – Sadwrn, 17 Tachwedd**
Arddangosfa gelf o ddiddordeb Cymreig yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd ar yr Ais. Mae'r teitlau yn gynnwys 'Storm yr Ynys', 'Llyn Gwynant' a 'Gogarth'.

**Gwener, 9 Tachwedd – Sadwrn, 10 Tachwedd**
Ffair Grefft – Gemwaith, lluniau, teganau, clustogau, sgarffiau, *charcuterie*, cacennau, cardiau Cymraeg ayyb. Eglwys Dewi Sant, St Andrew's Crescent o 3.00pm hyd 7.00pm nos Wener ac o 10.00am hyd 2.00pm dydd Sadwrn.

**Gwener, 9 Tachwedd – Sadwrn, 10 Tachwedd**
Cwmni Theatr Bara Caws yn cyflwyno ' "Un Bach Arall Eto": Sioe Glybiau Bara Caws' gan Twm Miall, yng Nghanolfan Chapter. Tocynnau: 029-2030-4400. Anaddas i rai dan 18 mlwydd oed.

**Mawrth, 13 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl. 'Y Taflu Allan.' Yr Athro John Gwynfor Jones yn olrhain hanes dechreuadau achos y Tabernacl, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mawrth, 13 Tachwedd**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Llŷr Dunsford am ei fusnes *charcuterie*, a chyfle i wneud selsig, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Gwener, 16 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y Parch. Guto Prys ap Gwynfor ar y testun 'Henry Richard (1812–88): Yr Apostol Heddwch a'r Aelod dros Gymru', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm.

**Sadwrn, 17 Tachwedd**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs am 11.00am. gan Lynne Davies am Lydaw. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 17 Tachwedd**
Clwb Rygbi Cymry Caerdydd. Gêm yn erbyn Pontycymer ar Gaeau Llandaf, Pontcanna, am 2.30pm, a chroeso i bawb yn yr Halfway ar ôl y gêm.

**Llun, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. 'Bywyd Cerddor.' Noson yng nghwmni Alun Guy, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 19 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Pwyllgor Blynyddol yng nghapel y Crwys am 7.30pm.

**Llun, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Yr Haul.' Darlith gan Huw Morgan (Prifysgol Aberystwyth), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 20 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Lyn Ebeneser ar y testun 'Diniweidrwydd', yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Mercher, 21 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs am 'Rwsia yn Nyddiau Comiwnyddiaeth' gan Merfyn Thomas, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau-Sadwrn 22-24 Tachwedd**
Theatr Bara Caws yn perfformio *Llanast!*, cyfieithiad Gareth Miles o ddrama Yasmina Reza, *Le Dieu Du Carnage*, yn Sherman Cymru am 8.00pm. Manylion pellach: 029 2064 6900 neu shermancymru.co.uk

**Gwener, 23 Tachwedd**
Clwb y Diwc. Maffia Mr Huws a'r Bromas (enillwyr Brwydr y Bandiau yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg, 2012) yn y 'Duke of Clarence', Clive Road, Treganna, am 8.00pm. Tocynnau: £9 ar gael o siop Caban, Pontcanna (gostyngiad i fyfyrwyr).

**Sadwrn, 24 Tachwedd**
Cwrs Nadolig Telynau Taf yn Eglwys Sant Ioan, Treganna, CF5 1NX, rhwng 9.30 a 4.30. Mae'r cwrs yn agored i bawb ond mae angen dod â'ch telyn eich hunan i'r cwrs. Ceir rhagor o fanylion a ffurflen gofrestru gan Sian Wynn: 07925-116873 neu info@wynnmusic.co.uk

**Mawrth, 27 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl. Cyngerdd gan Gôr Meibion Caldicot, yn y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Tocynnau ar gael wrth y drws.

**Gwener, 30 Tachwedd**
Ocsiwn Fawreddog a Noson Gymdeithasol ag Adloniant i godi arian i Brosiect Maint Cymru Cymorth Cristnogol, yng Nghlwb Golff Radur am 7.30pm. Bydd llu o wobrau yn cynnwys: taith o amgylch set 'Coronation Street'; taith o amgylch Stadiwm y Mileniwm i chwe person.

**Sul, 2 Rhagfyr**
Cyngerdd Nadolig CF1 yn y Deml Heddwch, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Parc Cathays, am 8.00pm. Am ragor o fanylion, cysylltwch â corcf1@gmail.com

**Llun, 3 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Prif Westai: Haydn Denman. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Llun, 3 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs a thrafodaeth am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Gwyddorau gan Dr Hefin Jones (Prifysgol Caerdydd), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 4 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Iona Edwards a Lewis Evans yn sôn am eu milltir sgwâr, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Mercher, 5 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Gwasanaeth a The Parti'r Nadolig, yn festri Capel Minny Street am 1.30pm. Gŵr gwadd: Parch. Jeff Williams.

**Gwener, 7 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd. Dr R. Alun Evans yn trafod 'Rhuban Glas y Pafiliwn Pinc: Gwobr Goffa David Ellis', yn festri Capel y Crwys, Richmond Rd, am 7.30pm.

**Gwener, 7 Rhagfyr**
Merched y Wawr Bro Radur. Pryd bwyd (*Ffresh*) a chyngerdd i ddilyn yng Nghanolfan y Mileniwm.

**Sadwrn, 8 Rhagfyr**
Côr Philharmonig Caerdydd yn cyflwyno cerddoriaeth y Nadolig, gan gynnwys yr Oratorio Nadolig gan Bach, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, gan ddechrau am 7.30pm. Tocynnau: £8.

**Llun, 10 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Nadolig ac adloniant, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.00pm.

**Llun, 10 Rhagfyr**
Merched y Wawr. Gwasanaeth Carolau'r Rhanbarth dan ofal canghennau Merthyr a Chwm Rhymni yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful.

**Mawrth, 11 Rhagfyr**
Merched y Wawr Caerdydd. Gweithdy copr – *repussé* – gyda Bethan Green, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk


**YSTAFELL DDWBL I'W GOSOD YN LLUNDAIN**

**Yn ymyl yr Old Brompton Road yn Chelsea. Tube agosaf Earls Court (Piccadilly, District) o fewn 6 munud neu West Brompton (District, Overland) o fewn 2 funud.**

**Posib cyrraedd Paddington mewn 15 munud ar y tube.**

**Buasech yn rhannu efo cyfreithwraig o Gaerdydd yn ei thridegau.**

**Rent: £750 y mis.**

**Yn edrych am rywun sydd naill a'i yn gweithio yn Llundain o ddydd Llun i ddydd Gwener sydd angen llety dros dro neu rywun sydd yn byw ac yn gweithio llawn amser yn Llundain.**

**Cysylltwch â Sara (07980 668435)**

**am ragor o wybodaeth a lluniau.**

# Cymrodorion Caerdydd

Ar ddechrau cyfarfod agoriadol tymor 2012-13 arwisgwyd Llywydd newydd y Cymrodorion, E. Wyn James, gan ei ragflaenydd Havard Gregory. Yn unol â'r traddodiad, yn dilyn ei arwisgo â chadwyn ei swydd, cafwyd anerchiad gan y Llywydd newydd.

Dan y teitl 'O Fyddin y Potomac i Fae Caerdydd' cyflwynodd beth o hanes lliwgar yr Uchgapten Evan Rowland Jones (1840-1920), ail Lywydd y Cymrodorion (1887-1894). Yn Nhregaron y cafodd ei fagu ac yr oedd ei fam yn un o ddisgynyddion Daniel Rowland. Ymfudodd i Wisconsin, U.D.A., yn 14 mlwydd oed a chafodd swydd fel clerc i siopwr o dras Almaenig. Daeth yn weithgar, fel gwrthwynebwr i gaethwasiaeth, yn ymgyrch etholiadol Abraham Lincoln yn 1860. Pan dorrodd y Rhyfel Cartref allan yn 1861 ymrestrodd gyda'r '5th Wisconsin Volunteers'. Ymladdodd dros achos y Gogledd am bedair mlynedd yn Virginia. Cyfeiriwyd ato yn wir fel 'the Hero of Gettysburg', ond amheuai Wyn James briodoldeb y teitl hwnnw!

Yn 1869 cafodd ei apwyntio gan lywodraeth yr Unol Daleithiau i swydd yn Lloegr (Newcastle-upon-Tyne) fel Consul Americanaidd. Yn 1883 fe'i hadleolwyd yma fel Consul Americanaidd yng Nghaerdydd. Tra bu yma mae'n amlwg iddo ail-ddarganfod ei Gymreictod. Gyda selogion fel Dan Isaac Davies, Edward Thomas ('Cochfarf') ac eraill cefnogai weithgareddau o blaid hyrwyddo'r Gymraeg – gan gynnwys sefydlu Cymrodorion Caerdydd.

Ef oedd perchenog a golygydd cyntaf y *Shipping World* – cylchgrawn dylanwadol sydd yn dal i gael ei gyhoeddi. Yn wleidyddol, yr oedd yn agos at Lloyd George a Tom Ellis, a rhwng 1892 a 1895 bu'n A.S. Rhyddfrydol dros Gaerfyrddin. Wedi ei gyfnod yn y senedd, ni ddychwelodd i Gymru i fyw, ond wedi ei farw ef, daeth ei weddw, Kate Alice Jones, yn ei hôl yma i Gaerdydd.



*Llywydd newydd y Cymrodorion, E Wyn James (canol) gyda'r cyn-Lywydd, Havard Gregory (dde) a'r Llywydd Anrhydeddus, John Gwynfor Jones (chwith)*

# Huw'n cwblhau Pererindod Heddwch

Mae'r athletwr a'r cyfrifydd Huw Roberts wedi cwblhau ei bererindod heddwch yn sir Benfro. 'Roedd y daith o 45 milltir yn coffau'r bardd a'r heddychwr Waldo Williams gyda Huw yn codi arian at Sefydliad Prydeinig y Galon ar y daith. Cerddodd mewn haul braf o Aberdaugleddau i Landysilio a chael cwmni ffrindiau a theulu ar hyd y daith gyda chymorth oddiwrth Gymdeithas Waldo a Sefydliad Prydeinig y Galon.

Dechreuwyd pob diwrnod gydag oedfa fer deimladwy mewn canolfannau crefyddol – Tŷ'r Crynwyr yn Aberdaugleddau, Capel Bethlehem a Tabernacl, Maenclochog.

"Roeddwn yn awyddus i ddychwelyd i ardal fy magwraeth ar gyfer y trydydd pererindod" medd Huw, sy'n lysgennad i Sefydliad Prydeinig y Galon, "ac 'roedd y gefnogaeth i'r daith gymunedol yn anhygoel. Ar hyd y daith, cefais fy nghyfarch gan gefnogwyr a phobol yn dymuno'n dda i mi, ac 'roedd hyn yn annogaeth ar hyd y daith."

"Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi a helpu ar hyd y daith ac i bobol sydd wedi cyfrannu at Sefydliad Prydeinig y Galon a Chymdeithas Waldo."

"'Roedd yr ymweliad â Ysgol Casmael, lle bu Waldo'n dysgu, yn llwyddiannus iawn a'r disgyblion wedi codi swm o £120 drwy hel ceiniogau yn defnyddio enw Waldo."



*Huw gyda Phererinion wrth garreg coffa Waldo ger Mynachlogddu*

"'Roedd hi'n deimlad arbennig i gwblhau'r daith gyda fy nhad, y Parchedig John Roberts sy'n 87 oed, yn cyflwyno bendith wrth fedd Waldo yng Nghapel Blaenonyn, lle cefais fy medyddio."

Mae'r arian yn parhau i lifo i mewn, gyda dros £4,000 wedi ei godi tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon. Os hoffech chi gyfrannu i'r achos teilwng yma, gallwch wneud trwy fynd ar lein www.justgiving.com/huwrobertspilgrimageforpeace neu trwy ddanfon siec yn daladwy i Sefydliad Prydeinig y Galon at Mr Huw Roberts, Sefydliad Prydeinig y Galon, Sophia House, 28 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9EP.

# CLWB CYMRIC

Dim ond dwy gêm gynghrair gafodd tîm cyntaf Clwb Cymric ym mis Hydref, ond curo fu'r hanes yn y ddwy, ac mae'r tîm yn dal i eistedd ar frig tabl ail adran Cynghrair Amatur De Cymru. Daeth yr uchafbwynt ar Sadwrn ola'r mis gyda thri phwynt holl bwysig yn dod o'r gêm oddicartref yn erbyn Pencoed Athletic – Cymric yn curo o dair gôl i un, gyda'r goliau, gan Emyr Huws, Osian Pritchard ac Eifion Roberts, i gyd yn dod yn yr hanner cyntaf.

Cymysg oedd y canlyniadau yn y ddwy gêm gwpan – curo o chwe gôl i ddwy yn erbyn Perthcelyn United o adran uwch, ond colli o dair i ddim yn erbyn Hirwaun Welfare.



*Osian Pritchard a Rhys Davies yn cyd-chwarae yng nghanol y cae*

Cafodd nifer o gemau'r ail dîm eu gohirio oherwydd y glaw, ond mae'r tîm wedi aros yn ddiguro'r tymor hwn wedi gêm gyfartal, tair gôl yr un, yn erbyn Llanrhymni United. Mae ysbryd newydd yn y tîm eleni a rhaid canmol agwedd ac ymroddiad yr holl chwaraewyr a'r tîm hyfforddi hyd yma.

Mae'r ddau dîm yn hyfforddi bob nos Lun ar gae Astroturf Stadiwm Lecwydd am 8.00 yh, ac mae croeso mawr i chwaraewyr newydd. I gadw i fyny â'r newyddion diweddaraf, ewch i wefan y clwb, sef www.clwbcymric.com

# Clwb Rygbi Caerdydd

Yn dilyn dyrchafiadau blynyddol ers 2010, mae Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn awr yn chwarae yng Nghyngrair 4 y De Orllewin yn erbyn timoedd eraill y ddinas yn ogystal â sawl tîm o gymoedd y Rhondda.

Cael a chael yw hi hyd yn hyn, gyda'r clwb yn cymryd amser i gyfarwyddo â safonau uwch eto, ac heblaw am guro Penygraig 43-0, hanes y canlyniadau yn gyffredinol yw naill ai ennill neu golli yn y munudau olaf. Er gwaethaf colli 4 ac ennill 3, mae pwyntiau bonws gwerthfawr wedi sicrhau fod y clwb ar hyn o bryd yn wythfed allan o ddeuddeg yn y tabl.

Y gêm gynghrair nesaf adref fydd yn erbyn Pontycymmer ar 22 Tachwedd. Croeso cynnes i bawb ddod i wylio, ac yna i gael sgwrs a pheint yn yr Half Way.

